**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD:** | 13eg Mawrth 2006 |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Peter Slee**<br>**Prif Swyddog Cynorthwyol**<br>**(Gwasanaethau Corfforaethol)** |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | Rhoi gwybod i'r Aelodau am yr opsiynau sydd ar gael i nodi Degfed Penblwydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn ei gyfarfod ar 26ain Hydref 2005, cyflwynwyd adroddiad i'r Panel Gweithredol i geisio barn yr aelodau ar nodi degfed penblwydd yr Awdurdod a'r ffordd fwyaf priodol o nodi'r achlysur.

1.2 Roedd nifer o'r aelodau'n cytuno â'r syniad o nodi degfed penblwydd yr Awdurdod ond yn pwysleisio bod rhaid cadw costau unrhyw ddigwyddiadau neu gyhoeddiadau mor isel â phosib oherwydd y pwysau ar y gyllideb. Wedi trafodaeth ynghylch nifer o opsiynau, penderfynodd y Panel: "[g]wneud ymholiadau ac adrodd yn ôl i'r Panel Gweithredol/Awdurdod am y posibilrwydd o gynnal derbyniad yn Walesfire 2006 i gofnodi degfed penblwydd yr Awdurdod, a chyhoeddi llyfryn yn cynnwys manylion am lwyddiannau'r Awdurdod yn ystod y deng mlynedd."

## 2. CANFYDDIADAU

2.1 Yn ystod y deng mlynedd ers ffurfio'r Awdurdod, mae cyfanswm o 78 o bobl wedi gwasanaethu, neu wrthi'n gwasanaethu, fel Aelodau neu Brif Swyddogion ar yr Awdurdod.

2.2 Gan fod y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru wedi eu ffurfio ar yr un adeg, bydd aelodau'r awdurdodau tân ac achub eraill hefyd yn nodi eu degfed penblwydd hwythau. Felly, efallai y byddai Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn dymuno ystyried cynnal derbyniad ar y cyd ar gyfer y tri awdurdod yng Nghynhadledd Walesfire 2006 yn Llandudno ym mis Mai.

2. **CANFYDDIADAU** *(parhad)*

2.3 Gyda hyn mewn cof, cafwyd dyfynbrisiau ar gyfer yr opsiynau canlynol. Adroddir yn fanylach ar gost pob opsiwn yn y cyfarfod:

2.4 Derbyniad dros ginio
Gellid cynnal derbyniad dros ginio yn Ystafell Conwy yng Ngwesty'r St. George's (gwesty Cynhadledd Walesfire 2006). Roedd yr ystafell ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Mae'r ystafell hon yn ddelfrydol ar gyfer hyd at 80 o westeion ond petai angen ystafell fwy, yna efallai y byddai ystafell Wedgewood ar gael.

2.5 Llyfryn i Gofio
Opsiwn arall fyddai cyhoeddi llyfryn i ddathlu'r hyn mae'r Awdurdod wedi ei gyflawni dros y ddeng mlynedd ddiwethaf. Byddai'r llyfryn yn cynnwys enwau'r holl Aelodau a Phrif Swyddogion sydd wedi gwasanaethu ar yr Awdurdod, a rhestr o'r hyn mae wedi ei gyflawni yn cynnwys pwt am bob un. Gellid cyhoeddi'r llyfryn mewn lliw, a chynnwys lluniau.

2.6 Rhagor o Opsiynau
Gellid defnyddio derbyniad Cynhadledd Walesfire 2006, sydd i'w gynnal nos Lun 8fed Mai 2006, i ddathlu'r penblwydd. Byddai hyn yn golygu cael Atal Tân Cymru i ddefnyddio'r 10fed Penblwydd fel thema ar gyfer y noson. Ar hyn o bryd y gost ar gyfer y derbyniad ar noson agoriadol y Gynhadledd yw £10 y pen ond fe allai hwn godi petai rhagor yn mynychu h.y. gwahodd cyn-aelodau, ac felly'r angen am ystafell fwy. Byddai hyn yn caniatáu mynediad syml i Awdurdodau Tân ac Achub eraill Cymru i'r dathliad, ond byddai hefyd yn agored i bawb fyddai'n mynychu'r gynhadledd ac felly gallai dynnu oddi wrth bod yn achlysur pwysig i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

3. **ARGYMHELLION**

Bod yr Aelodau'n:

3.1 nodi cynnwys yr adroddiad; ac yn

3.2 penderfynu ar ba ddull fyddai orau i nodi'r degfed penblwydd.